3.24 Pan fydd cynlluniau datblygu neu gynigion datblygu unigol yn debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar iechyd pobl, dylid ystyried yr effeithiau amgylcheddol gan ddeall y canlyniadau tebygol ar iechyd. Gellir ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth drwy fecanweithiau amrywiol i asesu effeithiau posibl ar iechyd, fel arfarniad cynaliadwyedd o gynlluniau datblygu ac asesiadau o'r effaith amgylcheddol, a lle'n berthnasol dylid cynnwys effeithiau iechyd perthnasol mewn asesiadau o'r fath. Yn gyffredinol, er mwyn sicrhau'r ffyrdd mwyaf effeithiol a chydweithredol o weithio, rhaid wrth ddulliau integredig a rennir i gasglu tystiolaeth a chynnal asesiadau. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd[11] yn help gwerthfawr i baratoi cynlluniau. Gall fod yn ddefnyddiol wrth gynnig neu wneud penderfyniadau ynghylch datblygiad newydd ac wrth ystyried y dystiolaeth a gesglir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall tystiolaeth am yr effeithiau ar iechyd helpu'r system gynllunio i baratoi trefniadau cryfach a mwy cydlynus ar gyfer gwella iechyd a lles.

## Y Gymraeg a Chreu Lleoedd

3.25 Mae'r Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei llesiant i'r dyfodol yn dibynnu ar bob math o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau a mannau cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu.

3.26 Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau dosbarthiad a chyflwyniad eang i'r datblygiad sy'n ystyried gallu'r ardal neu'r gymuned i ganiatáu'r datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg.

3.27 Dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisïau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill.

3.28 Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Ni ddylai polisïau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.

3.29 Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd o'r fath fod wedi'u diffinio'n glir yn y cynllun datblygu.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

3.30 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol[12] ac yn cynnig fframwaith ar eu cyfer fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau maent yn eu darparu. Mae gofyn i Lywodraeth Cymru baratoi, cyhoeddi a chynnal

[11] https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/cy/

[12] https://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/natural-resources-policy/?skip=1&lang=cy